

Erthygl 2 – Aelodau'r Cyngor

2.1 Aelodaeth a Chymhwysedd

- (a) Aelodaeth - Mae'r Cyngor yn cynnwys 74 o aelodau, a elwir yn gynghorwyr. Etholir yr holl gynghorwyr gan bleidleiswyr pob rhanbarth etholiadol yn unol â chynllun a luniwyd gan Gomisiwn Ffiniau Llywodraeth Leol yng Nghymru ac a gymeradwywyd gan Lywodraeth Cymru.
- (b) Cymhwysedd – I gael ei ethol yn aelod o'r Cyngor Sir, rhaid i berson fod yn 21 oed o leiaf ac yn ddinesydd y Gymanwlad, yn ddinesydd Gweriniaeth Iwerddon neu'n ddinesydd Aelod-wladwriaeth arall yn y Gymuned Ewropeaidd. A nail ai:-
 - (i) yn etholwr llywodraeth leol yn ardal yr awdurdod, ac yn parhau felly; neu
 - (ii) wedi meddiannu fel perchennog neu denant unrhyw dir neu adeiladau eraill yn ardal yr awdurdod yn ystod y deuddeng mis cyfan cyn hynny; neu
 - (iii) yn berson sydd wedi gwetihio'n bennaf neu'n unig yn ardal yr awdurdod; neu
 - (iv) wedi byw yn ardal yr awdurdod yn ystod y deuddeng mis cyfan cyn hynny.

2.2 Ethol Cynghorwyr a'u Tymor yn y Swydd

Cynhelir etholiadau ar gyfer holl aelodau'r Cyngor bob pum mlynedd fel arfer. Bydd tymor cynghorwyr yn eu swydd yn dechrau ar y pedwerydd diwrnod ar ôl cael eu hethol ac yn diweddu ar y pedwerydd diwrnod ar ôl dyddiad yr etholiad rheolaidd canlynol.

2.3 Rolau a Swyddogaethau'r Holl Cynghorwyr

Ceir hyd i Broffil Swydd a Manyleb Person Cynghorydd yn Rhan 6 o'r Cyfansoddiad hwn, oddi mewn i Gynllun Lwfansau'r Cynghorwyr a'r Aelodau Cyfetholedig.

(NODER:-

Swyddi anweithredol mewn prif gynghorau

Bydd y swyddi anweithredol canlynol yn gymwys ar gyfer ceisiadau rhannu swydd, a rhaid i unrhyw geisiadau o'r fath gael eu hystyried gan y Cyngor Llawn (dod i rym ar ddyddiad i'w benodi gan Weinidogion Llywodraeth Cymru)-:

- a) Cadeirydd Prif Gyngor
- b) Is-gadeirydd Prif Gyngor
- c) Aelod llywyddol Prif Gyngor
- d) Dirprwy Aelod llywyddol Prif Gyngor
- e) Cadeirydd pwyllgor neu is-bwyllgor Prif Gyngor;

- f) Is-gadeirydd neu ddirprwy gadeirydd pwyllgor neu is-bwyllgor Prif Gyngor;
- g) Dirprwy faer mewn gweithrediaeth maer a chabinet

2.4 Hawliau a Dyletswyddau – Ffeiliau y Gall Aelodau eu Cyrchu

Bydd gan gynghorwyr pa hawliau mynediad bynnag at y cyfryw ddogfennau, gwybodaeth, tir ac adeiladau o eiddo'r Cyngor ag sy'n angenrheidiol i gyflawni eu swyddogaethau'n briodol ac yn unol â'r gyfraith.

Ni fydd cynghorwyr yn gwneud gwybodaeth sy'n gyfrinachol neu'n eithriedig yn gyhoeddus heb ganiatâd y Cyngor nac yn datgelu gwybodaeth a roddwyd yn gyfrinachol i unrhyw un heblaw am gynghorydd neu swyddog sydd â hawl i wybod.

I'r dibenion hyn, diffinnir gwybodaeth "gyfrinachol" ac "eithriedig" yn y Rheolau Mynediad at Wybodaeth yn Rhan 4 o'r Cyfansoddiad.

Gwneir pob cais o'r fath am fynediad at ddogfennau i'r Prif Weithredwr neu Brif Swyddog priodol arall, a fydd yn penderfynu a oes angen mynediad er mwyn gallu cyflawni swyddogaethau'r aelod yn briodol ac yn unol â'r gyfraith. Bydd y swyddog perthnasol yn ymgynghori â'r Swyddog Monitro, os bydd gofyn.

2.5 Ymddygiad

Bydd cynghorwyr yn rhoi sylw bob amser i Gôd Ymddygiad yr Aelodau a'r Protocol ar gyfer y Berthynas rhwng Aelodau/Swyddogion a gyflwynir yn Rhan 5 o'r Cyfansoddiad hwn.

2.6 Lwfansau

Bydd hawl gan Gynghorwyr i dderbyn lwfansau yn unol â'r Cynllun Lwfansau Aelodau a gyflwynir yn Rhan 6 o'r Cyfansoddiad.